## Y Grawys

**Darlleniad: Luc 4:1–13**

**Gweddi**

Arglwydd ein Duw, trown atat ar ddechrau'r Grawys, gan ofyn am dy fendith a'th arweiniad yn ystod y tymor pwysig hwn.

Diolchwn am yr hanes a ddarllenwyd sy'n sylfaen i'r Grawys, a helpa ni i fyfyrio o'r newydd ar y digwyddiadau.

Cofiwn fod yr Ysbryd a fu'n arwain Iesu yn yr anialwch yn dymuno ein harwain ninnau, wrth i ni wynebu profiadau amrywiol yr anialwch a ddaw i gwrdd â ni yn ein bywydau. Yn ein hunigrwydd, ein siom, ein diflastod, ein dryswch, ein hanobaith, ein gofidiau a'n hanawsterau, helpa ni i sylweddoli dy fod ti yn Arglwydd ar yr anialwch hefyd, ac yn drech na holl amgylchiadau dyrys bywyd.

Meddyliwn yn arbennig am ddisgyblaeth Iesu dros y deugain niwrnod a gweddïwn am gymorth i ninnau ymddisgyblu. Rhaid i ni gydnabod, Arglwydd, ein bod ni'n gallu bod yn ddiffygiol yn ein hymroddiad i'r bywyd Cristnogol ac yn annheilwng o gael ein galw'n ddilynwyr a disgyblion i Iesu. Mor aml y byddwn yn crwydro oddi wrthyt mewn meddwl a gair a gweithred.

Cawn ein hannog gan y Gair i ganolbwyntio ar y gwir a'r anrhydeddus, y cyfiawn a'r pur, yr hawddgar a'r canmoladwy, ar bob rhinwedd sy'n haeddu clod; ac eto gwyddom ein bod yn cael ein denu mor rhwydd at y gau a'r anurddasol, yr anhaeddiannol a'r amhur.

Cawn ein hannog gan y Gair i atal y tafod rhag drwg a'r gwefusau rhag llefaru celwydd, i gyfrannu bendith a gweddïo dros bawb, ond eto gwyddom mor rhwydd y llithra allan y geiriau angharedig a'r saethau miniog i glwyfo a dilorni.

Cawn ein hannog gan y Gair i garu'n gilydd, nid ar air ac ar dafod yn unig, ond mewn gweithred a gwirionedd, ond gwyddom mor rhwydd y gadawn i gyfle fynd heibio a methu gwneud unrhyw beth dros y lleiaf o dy blant di.

Trugarha wrthym, Arglwydd, yn ein methiant, ac adnewydda ni â'th faddeuant.

Yn ystod y Grawys hwn, cynorthwya ni i'n rhoi ein hunain o'r newydd o dan iau Iesu a dysgu ganddo ef. Cyfeiria ni'n gyson at lwybrau defosiwn, i astudio'r Gair ac offrymu gweddi, fel y gallwn ddyfnhau ein bywyd ysbrydol a gwrthsefyll pob temtasiwn, fel y gwnaeth Iesu.

Mewn byd sy'n ymwrthod â phob disgyblaeth ac sy'n mynnu troi rhyddid yn benrhyddid, bydded i ni ddangos gwerth y bywyd disgybledig a'r bendithion sydd i'w cael o fyw o fewn terfynau dy fwriad a'th ewyllys.

Fel y bu i Iesu ddefnyddio'r anialwch yn gyfnod o baratoi ar gyfer ei waith o achub y byd, boed i ninnau wneud y defnydd gorau o'r tymor hwn i'n paratoi ein hunain ar gyfer y Pasg. Boed i'n golygon fod ar y groes, a boed i'n myfyrdodau ganolbwyntio ar yr aberth mawr a wnaed trosom ni, fel y bydd ein hymroddiad dros yr Efengyl a'n gwaith dros y deyrnas o'r radd flaenaf. Bydded i'n Grawys ni fod yn deilwng o'th Basg di ac o'r cariad a roddodd ei hunan yn llwyr er mwyn rhoi bywyd i'r byd.

Yn enw ac yn haeddiant dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist, Amen.

***Robin Samuel***